

Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/0031/20

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

29 Ionawr 2020

Annwyl John,

Diolch am fy ngwahodd i gyfarfod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ddydd Mercher 12 Chwefror 2020 am sesiwn ar Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn dilyn yr adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r papur tystiolaeth sydd ynghlwm yn ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o roi'r Ddeddf ar waith.

Yn gywir,

Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Jane.Hutt@lyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sesiwn Graffu ar Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar ôl i Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Ddeddf gael ei Gyhoeddi –

9:30 – 11:00, 12 Chwefror 2020

Papur Tystiolaeth

1. Roedd y papur tystiolaeth a anfonwyd atoch cyn eich sesiwn graffu ym mis Tachwedd 2018 ar Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn nodi'r cynnydd ers y diweddariad diwethaf ym mis Chwefror 2018. Rydych hefyd wedi cael diweddariadau chwarterol gan y Cynghorwyr Cenedlaethol tan ddiwedd mis Rhagfyr 2019. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg byr o adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru a diweddariad pellach ar gynnydd.
2. **Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru**
 - 2.1. Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ei hadroddiad ar gynnydd o ran gweithredu Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar 21 Tachwedd 2019. Dewiswyd y dyddiad hwnnw er mwyn cyd-daro â Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Menywod a Diwrnod y Rhuban Gwyn.
 - 2.2. Canfu SAC fod y Ddeddf yn trawsnewid gwasanaethau a bod hyfforddiant yn codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cydnabuwyd bod cydweithio effeithiol mewn rhai rhannau o Gymru, er bod y partneriaethau'n gymharol newydd a bod angen amser arnynt i aeddfedu. Mae landlordiaid tai cymdeithasol yn cefnogi dioddefwyr ac yn cymryd camau gweithredu yn erbyn cyflawnwyr; ac roedd bron pob un o'r ymatebwyr i arolwg SAC wedi mapio gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wrth baratoi eu strategaethau lleol.
 - 2.3. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy ac er nad yw'r adroddiad yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r canfyddiadau. Dechreuodd yr adolygiad ar gyfer yr adroddiad hwn tua 18 mis yn ôl; yn anochel, yn ystod y broses o gynnal adolygiad, bydd pethau'n symud yn eu blaen, yn enwedig mewn maes fel hwn lle mae llawer o gamau gweithredu wedi cael eu cymryd a chynnydd da wedi cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith a fydd yn rhoi rhagor o gymorth i bartneriaid wrth iddynt roi'r Ddeddf ar waith. Amlinellir y rhain isod yn erbyn yr argymhellion.
 - 2.4. Argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru A1
Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu, er bod gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth gynyddol am wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod,

Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r galw amdanynt, bod bylchau sylweddol yn dal i fodoli a bod ymgysylltiad â goroeswyr a dioddefwyr i adolygu a datblygu gwasanaethau yn anghyson. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymhell bod gwaith i asesu anghenion a mapio'r ddarpariaeth gwasanaethau gan gyrrff cyhoeddus yn cael sylw o'r newydd a bod y modd y caiff pobl eu cynnwys yn cael ei ehangu a'i wella i gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol er mwyn creu darlun mwy cywir o'r ddarpariaeth gyfredol o ran gwasanaethau ac adnabod bylchau.

2.5. Ymateb LIC1

Mae hwn yn ofyniad a nodir mewn canllawiau statudol ar gyfer Strategaethau Lleol (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018) a hefyd ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Rhanbarthol (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019). Mae byrddau rhanbarthol wedi bod yn cyflawni gwaith mapio mewn ymateb i'r gofyniad hwn a rhoddodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol i'r rhanbarthau ar ddechrau 2019 i gefnogi'r gwaith hwn.

2.6. Argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru A2

Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn disgrifio sut y mae dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn aml yn ei chael yn anodd ymgodymu â system dameidiog o ran y gwasanaethau a ddarperir. I gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr i gael mynediad at wasanaethau a'u defnyddio rydym yn argymhell bod cyrff cyhoeddus:

- yn cynhyrchu gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol mewn amrywiaeth o gyfryngau am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr; ac
- yn creu llwybr ar y cyd i gael mynediad at wasanaethau a chymorth ar gyfer dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol ac yn hysbysebu trefniadau mynediad yn eang

Ymateb LIC2

Mae llinell gymorth a gwefan Byw Heb Ofn yn darparu'r wybodaeth hon drwy sawl sianel ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu manylion y llinell gymorth a'r wefan yn ei holl ymgyrchoedd cyfathrebu, ym mhob digwyddiad hyfforddi a rhannu gwybodaeth, drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar sticeri drws, posteri gwybodaeth, baneri naid a thafenni. Mae deunyddiau gwybodaeth wedi cael eu rhoi i bob awdurdod perthnasol ac mae'r heddluoedd wedi cael cardiau busnes i'w rhoi i ddioddefwyr a goroeswyr.

Rydym yn datblygu fframwaith ymgysylltu â goroeswyr ac rydym wedi treialu panel dioddefwyr a fydd yn ein galluogi i ymgynghori'n gyson â goroeswyr i lywio gwaith a fydd yn gwella gwasanaethau drwy waith datblygu a chyflawni polisiau.

2.7. Argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru A3

Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data, bod angen i

sefydliadau rannu data gyda phartneriaid hefyd i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr yn well. Rydym yn argymhell bod awdurdodau:

- yn sicrhau bod staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr yn cael hyfforddiant priodol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- yn darparu hyfforddiant diweddarau ar gyfer rheolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data, a pha ddata y gallant ac na allant eu rhannu; ac
- yn adolygu ac yn diweddarau protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.

Ymateb LIC3

Mae'n ofyniad sylfaenol o dan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol i bob aelod o staff mewn awdurdodau perthnasol ymgymryd ag e-ddysgu ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol neu'r hyfforddiant wyneb yn wyneb cyfatebol, ac i staff rheng flaen ymgymryd â hyfforddiant Gofyn a Gweithredu er mwyn eu helpu i adnabod arwyddion camdriniaeth, gofyn cwestiynau sensitif, a gwybod sut i gyfeirio dioddefwyr a goroeswyr at gymorth priodol. Hyd yn hyn, mae 167,500 o weithwyr yn y sector cyhoeddus wedi ymgymryd â hyfforddiant drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ers iddo gael ei gyflwyno ym mis Mawrth 2016.

Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig bod staff ym mhob awdurdod yn deall beth y gallant ei rannu.

2.8. Argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru A4

Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er bod peth cynnydd da wedi cael ei wneud gyda gweithio'n rhanbarthol, nad oes ysgogwyr priodol yn eu lle bob amser i gefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. I sicrhau bod manteision rhanbartholi'n cael eu gwireddu, rydym yn argymhell bod asiantaethau darparu (awdurdodau lleol, cyrff iechyd, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a'r trydydd sector) yn adolygu eu dull o weithio'n rhanbarthol i integreiddio gwasanaethau'n well a chynyddu i'r eithaf yr effaith gadarnhaol y gallant ei chael er ddioddefwyr a goroeswyr.

Ymateb LIC4

Rhoddir arweiniad ar hyn yn y canllawiau comisiynu rhanbarthol statudol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019.

Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), a gyflwynwyd ar 18 Tachwedd, yn nodi bwriad i ddatblygu fframwaith a phwerau i hwyluso dulliau gweithio rhanbarthol mwy cyson a chydlynol ar gyfer cyflawni swyddogaethau awdurdodau lleol. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu swyddogaeth Gwella a Chymorth a fyddai'n gallu cefnogi ac annog y gwaith o drawsnewid gwasanaethau o fewn awdurdodau lleol i gynnwys rhanbartholi a chyflawni rhanbarthol gyda phartneriaid.

2.9. Argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru A5

Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn amlygu nad yw'r mecanweithiau cyllido cymhleth a byrdymor, diffyg data ac ymgynghori annigonol â rhanddeiliaid, o gymorth i gomisiynu gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn modd cynaliadwy.

I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn adolygu eu trefniadau comisiynu i:

- gael gwared ar ddyblygu a gorgyffwrdd rhwng gwahanol ddulliau yn yr awdurdod a chyda phartneriaid;
- rhesymoli trefniadau gweinyddu i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian;
- symleiddio a safoni trefniadau comisiynu i leihau baich gweinyddu ar yr holl bartion; a
- phennu mesurau perfformiad, targedau a meincnodau priodol i farnu effaith a deilliannau gwasanaethau a gomisiynir.

Ymateb LIC5

Mae Llywodraeth Cymru wedi symleiddio 10 o'i grantiau ei hun i ffurfio dau grant yn unig, sef y Grant Cymorth Tai a'r Grant Plant a Chymunedau, sydd ar gael i awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fel rhan o'r gwaith i symleiddio'r grantiau, gwnaed ymdrechion i leihau biwrocratiaeth ac mae mwy o hyblygrwydd wedi cael ei roi i awdurdodau lleol i ddefnyddio'r grantiau hyn i ddiwallu anghenion lleol a chyflawni canlyniadau a nodir. Mae rhanddeiliaid allweddol yn rhan o'r grŵp sy'n datblygu fframwaith canlyniadau ar gyfer y grantiau.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu model cyllido cynaliadwy sy'n cynnwys mapio cyllid a gwasanaethau a helpu darparwyr gwasanaethau i gael gafael ar yr ystod lawn o gyllid sydd ar gael. Deilliodd y canllawiau comisiynu rhanbarthol statudol o'r gwaith hwn a, phan fydd awdurdodau lleol wedi'u rhoi ar waith yn llawn, byddant yn helpu i fodloni'r argymhelliad hwn.

Mae Cyngor Caerdydd wedi rhannu ei ddull cyllido a chomisiynu â'i rhanddeiliaid. Hefyd, mae rhanbarth Gogledd Cymru wedi mabwysiadu dull cyllido mwy cydweithredol, gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn gweithredu fel banciwr i'r rhanbarth.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Dangosyddion Cenedlaethol yn haf 2019 er mwyn hwyluso'r gwaith o fesur cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf ar waith. Mae cyfres o weithdai yn seiliedig ar bob un o amcanion allweddol y Strategaeth Genedlaethol yn mynd rhagddi er mwyn mireinio ac ymestyn y dangosyddion hyn ymhellach a bydd y rhain hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth genedlaethol pum mlynedd nesaf y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi yn 2021.

2.10. Canfyddiadau eraill

Beirniadwyd amseroldeb canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn deg o ran canllawiau ar gyfer datblygu strategaethau lleol, ond dylent lywio cynlluniau gweithredu a gwaith cyflawni. Fodd bynnag, cyhoeddwyd amrywiaeth eang o ganllawiau a phecynnau cymorth statudol ac arfer dda yn y pedair blynedd ers cyhoeddi'r Ddeddf, gan gynnwys dull addysg gyfan o atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a mynd i'r afael â nhw; gweithio gyda chyflawnwyr yn y sector cyhoeddus; diogelu pobl hŷn rhag cam-drin domestig; canllawiau ar anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod, a thrais ar sail anrhydedd; a chanllawiau i ymarferwyr CAF/CASS ar gam-drin domestig.

- 2.11. Hefyd, codwyd pryder nad oes gwaith dilynol yn cael ei wneud mewn perthynas â'r canllawiau ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru am hyn, yn arbennig mewn perthynas â'r canllawiau comisiynu statudol. Caiff fframwaith monitro ei ddatblygu ar gyfer rhoi'r canllawiau ar waith a bydd yn cefnogi'r broses o adrodd yn erbyn y Dangosyddion Cenedlaethol.
- 2.12. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at yr amser a dreuliwyd yn datblygu'r Dangosyddion Cenedlaethol. Mae hyn wedi bod yn heriol gan fod ffynonellau data cenedlaethol cynhwysfawr a chadarn yn brin. O ganlyniad i hyn, mae'r dangosyddion yn cynnwys mwy o bwyslais ar gyfiawnder troseddol na meysydd eraill. Cyhoeddwyd y Dangosyddion Cenedlaethol ym mis Mehefin 2019 ac mae Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith gyda rhanddeiliaid i'w mireinio a'u hystyngi. Mae'r gwaith hwn yn fuddiol iawn.
- 2.13. Er i'r broses o gyflwyno'r hyfforddiant gael ei chroesawu ar y cyfan, nododd SAC nifer o ddiffygion. Nid yw'r adroddiad yn cyfeirio'n benodol at Gofyn a Gweithredu, ond rydym yn cydnabod bod yr adborth yn seiliedig ar ymgynghoriad â'r partneriaethau hyfforddi rhanbarthol, felly, wrth ailosod y contract ar gyfer Gofyn a Gweithredu ym mis Rhagfyr 2018, gwnaethom ddiwygio'r fanyleb i fynd i'r afael â'r diffygion hyn.
- 2.14. Mae'r adroddiad yn nodi mai gwaith gyda chyflawnwyr yw'r agwedd wannaf a'r fwyaf heriol ar weithgarwch atal o hyd. Mae hyn yn wir ar y cyfan ac mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei gweithgarwch ei hun er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyflawnwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynnwys: cynnal adolygiad cyflym o'r hyn sy'n gweithio gyda chyflawnwyr; cyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer gweithio gyda chyflawnwyr; treialu dulliau gweithredu addawol; cyllido cwrs Meistr mewn Ymchwil i astudio stelcio ac aflonyddu; cynnal digwyddiadau rhannu arfer; a chyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar weithio gyda chyflawnwyr.

3. Cynnydd o ran rhoi Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar waith

- 3.1. Diben y Ddeddf hon yw gwella'r canlynol:
 - trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

- trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- y cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno nifer o ddyletswyddau fel yr amlinellir isod:

- 3.2. Dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru:
Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi Strategaeth Genedlaethol a'i rhoi ar waith. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol pum mlynedd ym mis Tachwedd 2016. Mae'n cynnwys chwe amcan allweddol ac fe'i hategir gan fframwaith cyflawni.
- 3.3. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd wrth roi'r Strategaeth ar waith. Mae tri adroddiad blynyddol wedi cael eu cyhoeddi a chaiff pedwerydd adroddiad ei gyhoeddi yn yr haf.
- 3.4. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi Dangosyddion Cenedlaethol i fesur cynnydd tuag at gyflawni dibenion y Ddeddf, a chânt ddiwygio'r Dangosyddion hynny. Cyhoeddwyd y Dangosyddion hyn ym mis Mehefin 2019 ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol. Mae gwaith wedi parhau i fynd rhagddo eleni drwy gyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid i fireinio'r dangosyddion ymhellach.
- 3.5. Rhaid i Weinidogion Cymru benodi Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Penodwyd y Cynghorydd Cenedlaethol cyntaf, sef Rhian Bowen Davies, ym mis Medi 2015. Ar ôl iddi adael y swydd, gwnaed y swydd yn un amser llawn ac fe'i llenwyd ar sail rhannu swydd gan y Cynghorwyr Cenedlaethol presennol, sef Yasmin Khan a Nazir Afzal, ym mis Ionawr 2018.
- 3.6. Mae dyletswydd ar y Cynghorwyr Cenedlaethol i gyflwyno cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi'r rhain. Cyhoeddwyd cynllun blynyddol y Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer 2018-19 ym mis Medi 2019 a chyhoeddwyd eu hadroddiad blynyddol ar gyfer 2020-21 ym mis Tachwedd 2019. Mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol hefyd yn rhoi adroddiadau chwarterol ichi ar gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i roi'r strategaeth ar waith, a chawsoch yr adroddiad diweddaraf ar 24 Ionawr 2020.
- 3.7. Pwerau a roddir i Weinidogion Cymru
Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau addysg i hyrwyddo diben y Ddeddf. Nid yw'r Gweinidogion wedi arfer y pŵer hwn hyd yma er mwyn osgoi rhoi baich biwrocrataidd diangen ar awdurdodau lleol ac am eu bod yn rhagweld y bydd y darpariaethau a gyflwynir yn y cwricwlwm newydd yn cael effaith fwy effeithiol.

- 3.8. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i sefydliadau addysg uwch ar y ffordd y gallant gyfrannu at y gwaith o gyflawni dibenion y Ddeddf. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda CCAUC i ddatblygu canllawiau sy'n cael eu diwygio ar hyn o bryd yn dilyn ymgynghoriad.
- 3.9. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau perthnasol ar y ffordd y mae'n rhaid iddynt gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r Ddeddf. Yr awdurdodau perthnasol yw awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, gwasanaethau tân ac achub ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar roi'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar waith; Strategaethau Lleol; a Chomisiynu Gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Rhanbarthol.
- 3.10. Dyletswyddau a osodir ar Awdurdodau Perthnasol
Rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gyhoeddi strategaeth leol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gan fod yr awdurdodau lleol yn cael eu grwpio ynghyd ar yr un ôl troed ag lechyd at ddiben cyflawni strategaethau ar gyfer atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a mynd i'r afael â nhw, maent wedi dewis cyhoeddi strategaethau rhanbarthol ar y cyd â'r byrddau iechyd lleol. Cyhoeddwyd y strategaethau cyntaf ym mis Ebrill 2018.
- 3.11. Rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol hefyd gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y ffordd y maent yn rhoi eu strategaethau ar waith. Daeth yr adroddiadau hynny i law yn haf 2019.

4. Gwaith Arall i Roi'r Strategaeth Genedlaethol ar Waith

- 4.1. Mae adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru, adroddiadau blynyddol y Cyngorwyr Cenedlaethol ac adroddiadau cyfnodol y Cyngorwyr Cenedlaethol i chi yn cyflwyno'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i roi'r Ddeddf a'r Strategaeth Genedlaethol ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys:
- cymorth 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos drwy linell gymorth a gwefan Byw Heb Ofn;
 - prosiect a llinell gymorth Dyn ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr gwrywaiidd y byddai'n well ganddynt gael llinell gymorth neu gymorth i ddynion yn unig;
 - canllawiau statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, strategaethau lleol a chomisiynu rhanbarthol.
- 4.2. Rydym wedi cyhoeddi amrywiaeth o ganllawiau a pheccynnau cymorth ac wedi darparu hyfforddiant drwy ein Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae ein hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chyfeirio pobl at gymorth, wedi cael cydnabyddiaeth eang ac mae sawl rhanbarth yn y DU wedi cysylltu â ni yn gofyn am gael darparu rhywbeth tebyg.
- 4.3. Mae'r Pwyllgor sy'n craffu ar Fil Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU wedi argymhell y dylai'r Bil gyflwyno gofyniad i hyfforddiant ddilyn esiampl Cymru ac

mae elusen Cymorth i Ferched Cymru yn dweud ei bod yn priodoli'r cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau i'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth o ganlyniad i'r hyfforddiant.

- 4.4. Rydym wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd cyfathrebu llwyddiannus. Canolbwyntiodd y diweddaraf o'r rhain ar reolaeth drwy orfodaeth, gan adeiladu ar yr hyrddiad cychwynnol o weithgarwch a gododd ymwybyddiaeth o reolaeth drwy orfodaeth a ble i gael cymorth a symud ymlaen i reolaeth drwy orfodaeth mewn grwpiau amrywiol fel Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, LGBTQ a'r henoed. Lansiodd ymgyrch yn targedu pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed yn ystod Wythnos y Glas sy'n ategu gwaith arall i addysgu plant a phobl ifanc am berthnasau iach drwy brosiect Sbectwm, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
- 4.5. Bydd ein hymgyrch ddiweddaraf, a gaiff ei lansio yn ystod Wythnos Trais Rhywiol ar 6 Chwefror, yn canolbwyntio ar reolaeth a thrais rhywiol. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y galwadau i linell gymorth Byw Heb Ofn yn dilyn lansiad pob hyrddiad, gyda galwyr yn aml yn cyfeirio at yr ymgyrch.
- 4.6. Ymhlith ein gwaith codi ymwybyddiaeth diweddaraf mae llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i holl awdurdodau lleol Cymru yn eu hannog i ddilyn esiampl Llywodraeth Cymru a Chyngor Castell-nedd Port Talbot a chynnig absenoldeb â thâl i'w staff i ddelio â materion yn ymwneud â cham-drin domestig. Ar yr un pryd, ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i bob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn tynnu sylw at ddatganiad ar y cyd Cyngor Partneriaeth Cymru ar absenoldeb â thâl ar gyfer cam-drin domestig.

5. Edrych i'r Dyfodol

Gan mai 2020 fydd pumed flwyddyn y Ddeddf, rydym wedi gofyn i'r Cynghorwyr Cenedlaethol wahodd asiantaethau partner i gynhadledd i ddathlu cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf ar waith ac ystyried y pum mlynedd nesaf, gan ddechrau'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Genedlaethol newydd.